



CYNHYRCHWYR CIG OEN AC EIDION CYMRU CYF


CYLCH<sup>lythyr</sup>  
HAF 2019



# Cofnodion Fferm WLBP – y wybodaeth ddiweddaraf

Wrth i nifer aelodau Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cyf (WLBP) sy'n defnyddio Cofnodion Fferm WLBP ar-lein gynyddu, mae'n bwysig ein bod yn diweddarau'r meddalwedd. Bydd hyn yn caniatáu i ni ymateb i ofnion cyfnewidiol y diwydiant ac anghenion ein haelodau.

Gyfrifon Cofnodion Fferm WLBP ar gyfer milfeddyg. Mae hi bellach yn bosib i'ch milfeddygfa leol eich galluogi i gwblhau eich Adolygiad Iechyd a Lles Blynnyddol ar-lein. I'r rhai hynny sydd wedi cofrestru ar raglan Cofnodion Fferm WLBP, bydd y manylion i'r adran Iechyd a Lles Blynnyddol ar 'My FAWL' yn cael eu cofnodi'n awtomatig o'ch Cofnodion Fferm.



## Diweddariadau ar gyfer y dyfodol

Rydym yn gwella Cofnodion Fferm WLBP yn rheolaidd, ac mae gennym sawl diweddariad ar y gweill yn barod i'w gweithredu.


Bydd yr ychwanegiadau newydd yn cynnwys:

- Ychwanegu maes dewisol sy'n cofnodi pwysau ar gyfartaledd wrth weinyddu meddyginiaeth.
- Ychwanegiadau pellach i'r cyfrifon Milfeddygol.
- Ap ffôn i sganio codau QR/cod bar wrth brynu meddyginiaethau.



Mae'r gallu i sganio cod QR/cod bar wrth brynu meddyginiaethau ar App Stockmove Express yn ddatblygiad cyffrous a fydd ar gael i bob un o'n haelodau. Bydd Cofnodion Fferm yn gallu cynnig mynediad i'r wybodaeth ddiweddaraf (e.e. dyddiadau cadw yn ôl, ayyb) ar rhai meddyginiaethau pan fyddwch chi'n eu prynu. Drwy'r defnydd o sganio fe fyddwch angen llai o amser a bydd llai o gamgymeriadau wrth fwydo'r wybodaeth honno.

## Cynnydd tuag at Gwblhau eich Llyfr Cofnod Rheoli FAWL



## Help a Chymorth



Sut i gychwyn  
» Mwy o help a fideos Quick Start

## Cysylltwch â ni

Ar gyfer ymholiadau aelodaeth ac adborth, byddwch cystal â chysylltu â:  
• Ffôn: 01970 636688  
• E-bost: [healthplan@wlbpc.co.uk](mailto:healthplan@wlbpc.co.uk)

## Y Datblygiadau Diweddaraf

Cafodd ein diweddariad diwethaf ei wneud ym mis Mehefin 2019. Roedd y diweddariad yma yn cynnwys newidiadau i adran 'Fy FAWL' ar ein gwefan.

Yr adran 'Fy FAWL' yw'r fersiwn ar-lein o Lyfr Cofnod Rheoli FAWL. Mae'r adran hon yn cynnwys sawl templed ar-lein yn gysylltiedig â chynllun Gwarant FAWL (FAWL Assurance).

Mae'r templedi yma'n cynnwys Cysylltiadau Fferm, Hyfforddiant a Chwynion, Polisiâu, Cynllun Iechyd, Adolygiad Iechyd a Lles Blynnyddol, Tail a Gwrtaith, a Chynllun Gwastraff Fferm.

Y prif newid yw'r diweddariad i'r dangosydd 'Cynnydd tuag at gwblhau eich llyfr Cofnod Rheoli FAWL.' Mae'r dangosydd yma yn nodi faint o gynnydd sydd wedi cael ei wneud o ran cyflawni'r adran 'Fy FAWL'. Mae hefyd yn dangos pa rannau sydd angen eu cwblhau.

Mae sawl diweddariad cyffrous wedi eu gwneud i

## Ganran o'ch Llyfr Rheoli FAWL sydd wedi ei gwblhau

Yn eiddo hysbysu mae un dudalen i'r ganran FAWL o'ch llyfr rheoli FAWL sydd wedi ei gwblhau. Gwblhau'r nodi o'ch adranau a chysylltiadau sydd i'w gwblhau. Gallwch eddychu ar y canlynol i'r gyfnewidiadau a'r hysbysu i'w gwblhau i'w gwblhau.

- Cwestiynau Anglyllau**
- Gwybodaeth Gywllt y Fferm
  - Rhestr Cysylltiadau Ffôn Brys
  - Datnod Cysyllt
  - Datnod Gwarant
  - Cysyllt Rheoli Aches
  - Cysyllt Rheoli Diogelu Ffasiog (PPP)
  - Cysyllt Gwastraff Fferm nad yw'n Ffioddriadur
  - Monitroedd o Storio Gwastellu yn Ddiogel
  - Monitroedd o Chwistrellu



I wybod mwy am y datblygiadau hyn, neu i gofrestru ar gyfer Cofnodion Fferm, ewch i:

[www.farmrecords.wlbpc.co.uk](http://www.farmrecords.wlbpc.co.uk) neu cysylltwch ag un o'n cydlynwyr:

Llyr Lewis: 07741549270 [llyrl@wlbpc.co.uk](mailto:llyrl@wlbpc.co.uk) Sion Ifans: 01970636688 [sionifans@wlbpc.co.uk](mailto:sionifans@wlbpc.co.uk)



# Mesurau llygredd amaethyddol

Ar 14 Tachwedd 2018, fe gyhoeddodd Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu mabwysiadu cynllun dros Gymru gyfan i ddelio â llygredd amaethyddol. Trwy gyflwyno rheoliad newydd, a ddaw i rym ar 1 Ionawr, 2020, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio mynd i'r afael nid yn unig a llygredd amaethyddol ond hefyd y niwed y mae hynny'n ei greu i enw da amaethyddiaeth yn ogystal â'n gallu i fasnachu gyda'r Undeb Ewropeaidd a sicrhau'r safonau sylfaenol fydd uwchlaw'r rhai y mae modd gwneud taliadau am ddeilliannau cynnyrch cyhoeddus. Bydd y mesurau arfaethedig yn cynnwys cynllunio rheoli maetholion, y defnydd o wrteithiau, diogelu safonau dŵr a storio tail.

Bydd y gofyniad ar gyfer cynllunio rheoli maetholion, er enghraifft, yn eithaf manwl. Bydd disgwyl i bob ffermwr baratoi cynllun blynyddol a fydd yn cynnwys, er enghraifft, gwybodaeth fesul cae am y math o gnwd sy'n cael ei dyfu, maint y cae, faint a'r math o dail sy'n cael ei wasgaru a faint o wrtaith sydd heb fod yn naturiol fydd efallai ei angen. Mae manylion llawn i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Bydd y newid fydd yn dilyn cyflwyno'r rheoliad yn golygu y bydd angen i Gynhyrchwyr Cig Oen a Chig Eidion Cymru (WLBP) i ddiwygio'r safonau cyfredol a defnyddir ar gyfer cynllun FAWL. Ein gobaith ydy y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi digon o rybudd i ni er mwyn caniatáu digon o amser i roi gwybod i bawb o'n haelodau o'r gofynion diwygiedig y bydd angen iddyn nhw eu gweithredu. Addawyd y bydd cyfnod pontio er mwyn caniatáu amser i ffermwyr addasu a sicrhau eu bod yn cydymffurfio.

Yn ddryslyd braidd, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cefnogi menter gan y diwydiant i geisio mynd i'r afael â nifer o'r materion y maen nhw'n bwriadu delio â nhw drwy reoliad. Mae grŵp o randdeiliaid o'r diwydiant, sy'n cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac undebau amaethyddol ymysg eraill, yn ceisio datblygu cynllun gwirfoddol i alluogi ffermwyr i addasu eu systemau rheoli i wella ansawdd dŵr, ond sydd heb gynnwys rhai o ofynion mwyaf caeth y newidiadau rheoliadol arfaethedig. Mae WLBP wedi datgan yn glir ei gefnogaeth i'r dewis gwirfoddol.

## Gweithio gyda chyrff Ardystio eraill

**Archwiliadau ar y cyd:** Os ydych yn aelod o gynllun arall fel er enghraifft, organig neu gnydau, yna gallwn drefnu archwiliad ar y cyd gyda'r corff ardystio perthnasol arall.\*

**Rydyn ni'n gweithio gyda:**

| CYNLLUN | NSF | Y Gymdeithas Bridd | CORFF ARDYSTIO<br>Cofrestr Lloyd's Register | SAI | OF&G |
|---------|-----|--------------------|---------------------------------------------|-----|------|
| Cnydau  | ✓   |                    |                                             |     |      |
| Llaeth  | ✓   |                    | ✓                                           | ✓   |      |
| Organig |     | ✓                  |                                             |     | ✓    |

**Yn dilyn yr archwiliad:**

Bydd yr asesydd yn anfon y gwaith papur aton ni, gan gynnwys y daflen anghydymffurfiad (non conformance) wedi'i llofnodi. Fe wnawn ninnau wedyn anfon y llythyr priodol atoch, gyda'r adroddiad anghydymffurfiad a'r camau angenrheidiol sydd angen eu cymryd, os yn berthnasol.

**Dychwelyd Camau Unioni a thystiolaeth:**

Mae gofyn anfon unrhyw gamau unioni (corrective actions) sy'n ymwneud â chynllun FAWL at swyddfa FAWL trwy e-bost neu lythyr (e-bost: [info@fawl.co.uk](mailto:info@fawl.co.uk), cyfeiriad: Gorseland, Ffordd y Gogledd, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2WB). Cofiwch hefyd i anfon unrhyw wybodaeth berthnasol yn ôl at y corff ardystio arall os gofynnir am hynny.

\* Noder ein bod yn ymdrechu i drefnu archwiliad ar y cyd lle bo modd; fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn bosib pob amser



# Uned Cig Eidion a Defaid yn defnyddio Cofnodion Fferm WLBP

Ffermio gyda'i wraig Cheryl, a'i rieni Emyr ac Ada Evans, yn Rhosgoch, Llanilar, ger Aberystwyth mae Gethin Evans. Maen nhw'n rhedeg menter cig eidion a defaid, tra bod Gethin hefyd yn gweithio'n llawn amser i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol fel Uwch-reolwr Stad Eryri.

Mae'r ddiadell yn cynnwys 500 o famogiaid Llŷn a Miwl Cymreig sy'n cael eu bridio'n bennaf gyda hyrddod Llŷn a Texel. Mae'r ŵyn i gyd yn cael eu pesgu i'r farchnad ar gyfuniad o borfa a cêc wyn (lamb creep). Caiff y rhan fwyaf o'r ŵyn eu gwerthu i Waitrose drwy Livestock Marketing, a Sainsburys drwy Randall Parker Foods.

O fewn y fenter cig eidion, mae gyda nhw 50 o warthog sugno Glas Prydeinig (British Blue) x gwartheg Henffordd x. Caiff y lloi eu gwerthu fel lloi stôr rhwng 12–18 mis oed. Mae Gethin hefyd yn magu 50 o loi â bwced o bythefnos oed, a'r rheiny hefyd yn cael eu gwerthu fel lloi stôr rhwng 12–18 oed.

Ers mis Ionawr 2019 mae Gethin wedi cymryd mantais o'r cyfleuster Cofnodion Fferm WLBP ar-lein sydd ar gael iddyn nhw fel rhan o'u pecyn aelodaeth FAWL. Ar ôl cofrestru a chreu cyfrif ar-lein, bydd eu dogfennau FAWL a thraws-gydymffurfio yn cael eu cofnodi a'u cadw ar-lein. Mae hyn yn cynnwys Llyfr y Ddiadell, Cofrestr y Fuches a'r Llyfr Meddyginiaethau.

Roedd Gethin yn arfer defnyddio meddalwedd arall, ond gwelodd bod Cofnodion Fferm WLBP yn cynnig pecyn cyflawn a oedd yn gwneud popeth yr oedd ei eisiau arno i gofnodi ei gofnodion fferm o ddydd i ddydd.

***'Roeddwn i eisie rhywbeth hawdd i'w ddefnyddio, a oedd yn gwneud yr holl gofnodi gorfodol sy'n ofynnol. Ro'n i hefyd eisie pecyn a fyddai'n gadael i mi gofnodi triniaethau ar nifer o anifeiliaid gyda'i gilydd neu anifail unigol a fyddai'n cael ei gofnodi ar-lein. Mae'r rhain yn cynnwys Llyfr y Ddiadell (Flock Book), Cofrestr y Fuches (Herd Register) a'r Llyfr Meddyginiaethau (Medicine Book).'***

Fel rhan o'r cyfleuster Cofnodion Fferm WLBP, mae Gethin yn defnyddio ap ffôn Stockmove Express WLBP, sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'i gyfri ar-lein. Mae'r ap yn declyn defnyddiol am ei fod yn gallu cofnodi pethau pan fydd ar y fferm neu oddi yno.

***'Gan fy mod i'n gweithio'n llawn amser wrth ochr y gwaith fferm, mae'r ap ffôn yn ddefnyddiol iawn gan***



***ei fod yn gadael i fi gofnodi pethau ar y buarth, yn y fan a'r lle. Hefyd, pe bai angen, fe alla i lenwi'r cofnodion pan fydda i'n gweithio bant. Dw i'n edrych ymlaen at gael y cyfleuster sganio cod QR ar yr ap ffôn gan y bydd hynny'n golygu llai o amser i fwydo'r wybodaeth am feddyginiaethau.'***

Mae cyfrif Cofnodion Fferm WLBP Gethin yn gysylltiedig â BCMS ac EID Cymru. Mae hyn yn ei alluogi i gyflawni symudiadau a genedigaethau ac ati drwy'r cyfrif ar-lein neu'r ap.

Mae Gethin wedi dod i hoffi'r system syml sy'n ei alluogi i gofnodi'r wybodaeth unwaith, a hwnnw'n cael ei gofnodi yn y ddogfen gywir ar y Cofnodion Fferm yn ogystal â hysbysu naill ai BCMS neu EID Cymru.

***'Mae'n wych cael un gwasanaeth cyflawn sy'n eich cysylltu chi â BCMS ac EID Cymru, ac mae'r symudiadau yn cael eu cofnodi'n awtomatig i Gofrestr y Fuches a Llyfr y Ddiadell. Symlwydd yr ap yw'r peth gorau amdano, ac mae'n golygu eich bod chi'n gallu cofnodi yn gyflym ac yn syml iawn.'***

Mae Gethin hefyd wedi cynnal Adolygiad Iechyd a Lles FAWL gyda'i filfeddyg.

***'Roedd y sgwrs un-i-un yn ddefnyddiol, yn enwedig gan y byddwn ni'n gallu defnyddio hwn nawr i ganolbwyntio ar y prif bethau sydd eisiau sylw ar y fferm, sef cloffni, a'r ymdrech barhaus i geisio ei waredu o'r ddiadell.'***

O fewn y mentrau ffermio yn Rhosgoch, mae Cofnodion Fferm WLBP wedi dod â budd enfawr fel teclyn cadw cofnodion a chofnodi perfformiad. Mae Gethin yn edrych ymlaen at barhau i fanteisio ar y ddarpariaeth hon sydd ar gael iddyn nhw drwy eu haelodaeth gyda FAWL.

**Am ragor o wybodaeth am Gofnodion Fferm WLBP cysylltwch gyda'n Cydlynwyr:**  
**Llyr Lewis – 07741549270 [LlyrL@wlb.co.uk](mailto:LlyrL@wlb.co.uk)**  
**Sion Ifans [sionifans@wlb.co.uk](mailto:sionifans@wlb.co.uk)**  
**[www.farmrecords.wlb.co.uk](http://www.farmrecords.wlb.co.uk)**

# Sioe Frenhinol 2019

Fe fyddwn ni'n bresennol yn Sioe Frenhinol Cymru eleni yn adeilad WAOS (D348 rhwng adeiladau ITV Cymru Wales ac FUW). Bydd staff WLBP yno i gynorthwyo neu ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych. Mi fyddwn ni hefyd yn cynnig cymorth a chynghor ynglŷn â sut i ddefnyddio ein hoffer ar-lein gan gynnwys Cofnodion Fferm.



## Pori stoc Organig yn ystod yr haf neu'r gaeaf (pori tir tac)

Mae'n ofynnol bod stoc organig yn pori ar dir sydd wedi'i gofrestru ar gyfer defnydd organig yn unig. Os caiff anifail organig ei dynnu oddi ar dir organig a'i bori am unrhyw gyfnod ar dir anorganig, yna bydd yr anifail hwnnw'n colli ei statws organig.

Ar rai adegau yn ystod y flwyddyn, yn enwedig felly yn ystod misoedd y gaeaf, mae'n bosib y bydd angen i chi ddod o hyd i dir ychwanegol i bori eich stoc. Mae tir tac organig wedi bod yn brin yn ystod y blynyddoedd diwethaf, felly mae'n syniad da i ddechrau chwilio am dir organig mor fuan â phosibl.

Mae sawl gwefan sy'n rhestru tir organig ar gyfer pori ar gael:

[www.welshorganic.co.uk](http://www.welshorganic.co.uk)

<https://www.soilassociation.org/farmers-growers/market-information/organic-marketplace/>

[www.ofgorganic.org/classified](http://www.ofgorganic.org/classified)

Gallwch hefyd osod hysbyseb ar y safleoedd hyn i holi os oes tir organig ar gael ar gyfer pori.

Os nad ydych yn gallu dod o hyd i dir organig i bori eich stoc yna cysylltwch â'r Swyddfa i drafod: **01970 636 688**

## HAIDD ORGANIG – CYFLE NEWYDD

Mae cwmni Evan-Evans o Landeilo, sydd wedi ennill nifer o wobrau rhyngwladol am fragu cwrw, yn bwriadu codi bragdy newydd fydd yn defnyddio haidd organig. Er ei bod yn ddyddiau cynnar, mae'r cwmni yn awyddus i gysylltu â ffermwyr sy'n tyfu haidd organig er mwyn trafod y galw ar gyfer haidd organig yn ystod 2020 a 2021.

Prosiect hirdymor yw hwn a fydd yn gofyn am gyflenwad o tua 500 tonnall fetrig o haidd organig.

Cysylltwch â [Simonbuckley@evan-evans.com](mailto:Simonbuckley@evan-evans.com) am fwy o wybodaeth.

## Sefydliadau cymorth amaethyddol



0800 121 47 22

[www.tirdewi.co.uk](http://www.tirdewi.co.uk)

**RABI – 0808 281 9490**

**The DPJ Foundation – 0800 587 4262**

Gweler uchod fanylion tri sefydliad sydd yn gweithio'n agos gyda'i gilydd er mwyn cefnogi ffermwyr. Yn bennaf, mae'r cymorth yn cael ei ddarparu gan nifer o wirfoddolwyr sydd oll un ai yn ffermwyr neu wedi gweithio'n helaeth o fewn y diwydiant amaethyddol – mae nhw'n deall. Byddant yn gwneud eu gorau i helpu gyda pha bynnag broblem neu broblemau sydd gennych, ac ni fyddant yn feirniadol ohonoch. Mae'r cymorth yn gyfrinachol felly does dim angen i unrhyw un wybod ein bod gyda chi, ac mae'r cymorth i gyd am ddim.

